

PENNOD 3

Beth yn y Byd?!

Deffrodd Angharad yn sydyn. Synnodd i weld nad oedd hi ar lawr ei hystafell wely y tro yma. Nac ychwaith ar lawr ystafell y prifathro. Yn lle, roedd hi'n gorwedd ar ei gwely ac roedd y cur pen wedi diflannu. O'r diwedd, roedd ei phen yn glir unwaith eto. Ymestynnodd ei chyhyrau gan glicio'i bysedd gan wneud sŵn POP deg gwaith. Eisteddodd yn llonydd am eiliad gan adael i'w meddwl grwydro.

Ers pan ddywedodd Mr Arwyn wrth Angharad, Aled ac Anni fod ganddynt bwerau, roedd Angharad wedi disgwyl y byddai'n teimlo'n ychydig yn wahanol ar ôl hanner awr wedi tri ar y trydydd o Fedi dwy fil a thrideg tri. Ond i'w syndod unwaith eto'r diwrnod hwnnw, doedd Angharad ddim yn teimlo'n wahanol o gwbl. Roedd popeth amdani'n teimlo union yr un peth. Roedd Angharad yn dal i deimlo fel... Angharad.

Cododd Angharad a cherddodd draw at ddrych ei hystafell wely i archwilio ei hun.

"Aaaaaaaaaa!" sgrechiodd Angharad.

O flaen Angharad, yn syllu nôl o'r drych arni oedd... cath. BETH YN Y BYD?! **CATH?!** Roedd Angharad wedi troi i edrych fel cath! Roedd ei llygaid wedi newid lliw. Yn hytrach na'i llygaid brown tywyll arferol, roedd ganddi lygaid glas golau fel yr awyr ar ddiwrnod braf o haf. Roedd ganddi flew yn tyfu o'i bochau ac o gwmpas ei thrwyn bach smwt. Yn chwifio tu

ôl iddi oedd cynffon hir du ac yn pipian uwchben ei gwallt oedd clustiau blewog, trionglog.

Dechreuodd Angharad boeni ei bod hi am orfod byw fel cath am weddill ei hoes! Yn mewian a chanu grwndi'n ddi-baid. Bydd pawb yn yr ysgol chwerthin arni. Hynny yw, byddai pawb yn chwerthin arni pe byddent yn ei hadnabod. Ond doedd Angharad ddim yn nabod ei hun hyd yn oed, felly sut roedd hi'n disgwyl i unrhyw un arall ei hadnabod, hyd yn oed ei mam a'i thad?!

Pwy yn y byd oedd wedi penderfynu bod y gallu i droi i edrych fel cath yn bŵer? Doedd edrych fel cath ddim yn bŵer o bell ffordd! Dechreuodd Angharad feddwl am y pwerau roedd Aled ac Anni newydd eu derbyn - pwerau llawer mwy cŵl a defnyddiol na throi i edrych fel cath. Sut roedd edrych fel cath am achub unrhyw un? Roedd *Supergirl* erioed wedi holi am help gan gath!

Dechreuodd Angharad deimlo'n genfigennus o Aled ac Anni a fyddai'n gallu defnyddio eu pwerau newydd i achub y dydd gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r byd. Ochneidiodd Angharad wrth feddwl am ba mor boblogaidd byddai Anni gyda'i phŵer newydd cŵl.

Yna, mewn fflachiad chwim newidiodd edrychiad Angharad.

"Aaaaaaaaaa!" sgrechiodd Angharad unwaith eto.

Tro yma, o flaen llygaid Angharad, yn syllu nôl o'r drych arni oedd... Anni! BETH YN Y BYD?! Hedfanodd cwestiwn ar ôl cwestiwn o gwmpas meddwl

Angharad, gan gynnwys sut byddai Mr Arwyn yn ymateb i ddwy Anni yn ymddangos i'r wers yn y gampfa goll bore yfory?

Yna, mewn fflachiad chwim eto, newidiodd edrychiad Angharad.

"Aaaaaaaaaa!" sgrechiodd Angharad unwaith eto.

Tro yma, o flaen llygaid Angharad, yn syllu nôl o'r drych arni oedd... Mr Arwyn! BETH YN Y BYD?!

Yna, bron mor gyflym â *Supergirl* yn hedfan i'r blaned Krypton, dealiodd Angharad beth oedd ei phŵer newydd. Ei phŵer newydd oedd y gallu i droi i mewn i unrhyw berson neu unrhyw anifail a ddaw i'w meddwl.

Nawr, roedd hynny'n cŵl!

Deffrodd Aled mewn llawenydd. Roedd y cur pen afiach wedi cilio – o'r diwedd! Ond wrth i Aled godi i'w eistedd ar ei wely, sylwodd nad oedd ei ben yn hollol iawn. Roedd Aled yn cael anhawster i egluro beth yn union a oedd o'i le gyda'i ben. Doedd ei ben na'i feddwl yn teimlo'n...llonydd.

Cerddodd Aled draw at yr ystafell ymolchi i archwilio'i hun yn y drych crwn ar ben y sinc. Wrth iddo gerdded draw at yr ystafell ymolchi sylwodd fod ei ben a'i feddwl yn teimlo'n llawn. Roedd cymaint o sŵn a chlebran yn mynd ymlaen yn ei ben, bron digon i wneud Aled boeni bod y cur pen am ddychwelyd.

Unwaith iddo gyrraedd yr ystafell ymolchi, caeodd Aled ei lygaid.

Dechreuodd Aled boeni y byddai rhywun neu rywbeth ofnadwy'n syllu'n ôl

o'r drych arno. Pipiodd Aled ar ei edrychiad yn nerfus a gollyngodd ochenaid o ryddhad. Diolchodd i ryw Dduw nad oedd e wir yn ei gredu bod ei bŵer heb newid ei edrychiad. Er, roedd Aled wedi hanner gobeithio y byddai'n derbyn pŵer a fyddai wedi ei wneud yn eithriadol o gryf gan roi cyhyrau enfawr iddo. Ond yn lle, fel bob tro, roedd Aled yn cael trafferth i droi tap cynnes y sinc ymlaen am ei fod mor stiff. Ochneidiodd Aled wedi'i siomi. Digalonnodd wrth feddwl ni fyddai'n gallu taflu'r gwrthwynebwy'r o'r ffordd gyda'i gryfder anhygoel yn y gêm rygbi nesaf!

Dechreuodd feddwl Aled grwydro at Angharad ac Anni a fyddai wedi deffro gyda'u pwerau newydd. Doedd Aled ddim yn hollol siŵr beth yn union oedd ei bŵer eto. Yr unig beth roedd Aled yn sicr ohono oedd bod Mr Arwyn wedi dweud celwydd. Er bod y cur pen gwreiddiol wedi cilio roedd pen Aled yn dal i frifo.

Yna, clywodd Aled lais ei lystad yn gweiddi bod swper yn barod.

Bownsiodd Aled i lawr y grisiau. Doedd y sleis o *pizza*, dogn o sglodion a sgwâr bach o *brownie* heb gadw Aled yn llawn am sbel. Roedd e'n edrych ymlaen at swper a sgrechiodd bol Aled mewn llawenydd pan glywodd yr arogl a oedd yn chwyrlio o'r gegin. Roedd yr awyr yn arogl fel ei hoff bryd o fwyd, sef *lasagne*.

Ond, er mawr syndod i Aled, doedd y *lasagne* ddim ar y bwrdd yn barod i'w sglaffio.

"O'n i'n meddwl 'weddes di bod bwyd yn barod?" holodd Aled.

“Naddo, ‘nes i ddim dweud yr un gair. Ond o’n i am dy alw lawr yn yr eiliadau nesaf yma. Bron fel dy fod di wedi darllen fy meddwl, Aled” dywedodd ei lystad gan chwerthin.

Yr eiliad honno, dealodd Aled beth oedd ei bŵer a pham roedd ei ben yn teimlo’n rhyfedd o hyd. Roedd Aled yn gallu darllen meddyliau pobl.

Roedd hyn am fod yn hwyl...

Deffrodd Anni yn hapus. Roedd ei phen yn teimlo can gwaith yn well - **hwrê!** Ond cyn iddi ymlacio’n llwyr, cofiodd yn sydyn am y pŵer newydd roedd hi bellach wedi ei feddiannu.

Cododd o’i gwely a cherddodd yn frysiog draw at ei desg ymbincio. Ers i Mr Arwyn gyhoeddi bod y tri ohonynt am dderbyn pwerau roedd Anni wedi gobeithio y byddai’n gallu hedfan neu wneud i bethau hedfan fel Mr Arwyn. Roedd Anni’n gyffrous dros ben i weld beth oedd ei phŵer newydd...

“BETH YN Y BYD?!” sgrechiodd Anni.

Roedd Anni wedi...DIFLANNU!

Roedd Anni wedi diflannu a dim ond ei gwisg ysgol oedd ar ôl i’w gweld yn adlewyrchiad y drych. Roedd ei dwylo, ei choesau, ei thraed, ei gwallt a’i choesau i gyd wedi diflannu yn adlewyrchiad y drych!

Doedd dim modd i Anni fynd i'r ysgol fel hyn yfory – yn anweledig! Yn fwy na hynny, sut byddai Anni'n gallu mynd lawr grisiau a chael swper gyda'i mam-gu a thad-cu? Yn ANWELEDIG?!

Penderfynodd Anni yn y fan a'r lle bod derbyn pŵer ddim yn rhywbeth hwyl o gwbl. Pam roedd angen iddi fod yn anweledig?! Byddai'r gallu i hedfan wedi bod yn llawer gwell.

Roedd ysgol yfory am fod yn ddiddorol...